Strwythur Mewnol y Gymdeithas

Yn y cyfarfod cyffredinol eleni pasiwyd y cynnig canlynol:

> *"Cyfrifoldebau*
>
> *Mae ansicrwydd ymhlith aelodau ynglŷn â chyfrifoldebau swyddogion gwirfoddol y rhanbarthau a rôl y celloedd a'r rhanbarthau. Gofynnwn i'r Grŵp Gweinyddol greu strwythur clir o gyfrifoldebau'r Senedd, Pwyllgorau Rhanbarth a Chelloedd a'r cysylltiadau rhyngddynt.*
>
> *Cynigir gan Ranbarth Ceredigion"*

Ymateb Drafft

Strwythur Mewnol y Gymdeithas



*grwpiau ymgyrch: cymunedau cynaliadwy, hawl, addysg, digidol
** grwpiau sefydlog eraill: gweinyddol, cyfathrebu, cyswllt y cynulliad, codi arian

Esboniad pellach

Celloedd

Grwpiau o 3 neu'n fwy o aelodau sy'n ymgyrchu'n lleol mewn pentrefi, trefi, ysgolion a phrifysgolion gan chwarae rhan yn cefnogi a llywio digwyddiadau ar lefel ranbarthol. Maen nhw'n ethol cynrychiolwyr i'r rhanbarth.

Rhanbarthau

Cynrychiolaeth o'r celloedd yw'r Rhanbarthau. Yma byddant yn rhannu syniadau, yn gallu penderfynu gwneud ceisiadau/cyfraniadau i gelloedd eraill y rhanbarth neu penderfynu gwneud ceisiadau/cyfraniadau i ymgyrchoedd Cenedlaethol. Yn y rhanbarth hefyd ceir bwydo gwybodaeth yn ôl o ymgyrchoedd Cenedlaethol. Mae hi'n hanfodol bod un neu ddau o gynrychiolwyr Rhanbarth yn mynychu cyfarfod Cyngor. Mae hawl mynychu cyfarfodydd Senedd.

Grwpiau Ymgyrchu

Ar hyn o bryd mae yna bedwar grwp ymgyrchu mewn gwahanol feysydd.

Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Grwpiau Ymgyrchu yn bobol sydd wedi'u hethol gan aelodau yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mae'r grwpiau ymgyrchu yn gyrru ymgyrchoedd yn eu blaenau gan adrodd yn ôl i gyfarfodydd Senedd a Chyngor ac yn cymryd cyfarwyddyd gan y Senedd a Chyngor. Gall y grwpiau ymgyrchu wneud cais am gymorth gan ranbarthau a chelloedd (drwy gynrychiolwyr y rhanbarthau sydd yn y cyfarfodydd Senedd a Chyngor) a dyma gyfle hefyd i ranbarthau adrodd yn ôl i'r grwpiau am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal gan allu cynnig cyfeiriad syniadau newydd i'r grwpiau ymgyrchu.

Senedd a Chyngor

Cyfarfodydd Senedd a'r Cyngor yw pwyllgorau cenedlaethol y mudiad sy'n cyfarwyddo gwaith y mudiad o fis i fis. Rhwng y cyfarfodydd hyn, Y Cadeirydd Cenedlaethol a etholwyd yn y cyfarfod cyffredinol, sy'n rheoli gwaith y Gymdeithas yn unol â phenderfyniadau'r Senedd a'r Cyngor.

Trwy'r cyfarfodydd hyn mae modd i gelloedd a rhanbarthau ddwyn dylanwad ar gyfeiriad ymgyrchoedd ac hefyd mae modd i'r grwpiau dynnu ar arbenigedd a phrofiadau'r celloedd a rhanbarthau gan holi am gymorth ble mae angen gydag ymgyrchoedd Cenedlaethol.

Mae Senedd neu Gyngor yn cwrdd yn fisol ag hepgor fis Awst. Senedd fel arfer, gyda thri cyfarfod Cyngor yn lle Senedd.

Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r Senedd yn ogystal â 2 gynrychiolydd o bob rhanbarth ynghyd â pump swyddog etholedig ychwanegol.

Oherwydd natur eu swyddi hwy mae mwy o bwyslais yn y cyfarfodydd Cyngor ar yr ariannol (Trysorydd, Swyddog Codi Arian, Swyddog Mentrau Masnachol) a'r cyfathrebu (Golygydd y Tafod a Swyddog Gwefan a Dylunio). Ynghyd â hynny mae mwy o bwyslais ar weithgarwch rhanbarthol/celloedd a'u perthnasedd â ymgyrchoedd cenedlaethol a pherthnasedd yr ymgyrchoedd cenedlaethol gyda'r rhanbarthol/celloedd.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cyfarfod blynyddol sy'n gwneud penderfyniad strategol o bwys ac yn ethol swyddogion i'r Senedd a'r Cyngor.

Mae cyfle yma hefyd i gelloedd, rhanbarthau a grwpiau ymgyrchu gyflwyno cynigion ger bron yr aelodau.

Mae rhaid i gynigion sy'n cael eu pasio yn y cyfarfod cyffredinol gael eu gweithredu.